WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2009-10

Mai 2010

**Awdur: Ceri Stradling** **Cyf: 303A2010**

# Strategaeth Archwilio Ariannol

# **Cyngor Gwynedd**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Strategaeth Archwilio Ariannol** | |
| Gwaith archwilio yn y Cyngor | 4 |
| Archwilio'r cyfrifon | 5 |
| Hawliau etholwyr | 6 |
| Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni | 6 |
| Gweithio gyda'r Cyngor | 7 |
| **Atodiadau** | |
| Rolau a chyfrifoldebau | 9 |
| Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio | 11 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r 'Datganiad o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Gwaith archwilio yn y Cyngor

1. Paratowyd y Strategaeth Archwilio Ariannol hon i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Penodedig yng Nghyngor Gwynedd (y Cyngor) o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).
2. Paratowyd dogfen ar wahân, sef *Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad*, i amlinellu'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwaith o dan y swyddogaethau sy'n weddill o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (Deddf 1999).
3. Nodir rolau a chyfrifoldebau ffurfiol yr Archwilydd Penodedig yn Atodiad 1. Anthony Barrett yw'r Archwilydd Penodedig yn y Cyngor, a gaiff ei gefnogi gan Ceri Stradling fel y Partner Ymgysylltu.
4. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y Cyngor, gan fodloni ei hun bod y cyfrifon:
   - yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor;
   - yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol;
   - wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol.
5. At hynny, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig:
   - fodloni ei hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
   - ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn unol â Deddf 2004 (yn arbennig mewn perthynas â hawliau etholwyr);
   - ardystio ceisiadau a ffurflenni grant.
6. Yn ogystal â bodloni'r gofynion cyfreithiol, mae'n rhaid i'r Archwilydd Penodedig gydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol. Er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol mae'n rhaid cyflwyno adroddiadau ffurfiol ar sawl cam o'r archwiliad i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu (gweler Atodiad 1). Yn benodol, fel rhan o'r trefniadau cynllunio archwiliad, mae'n rhaid i archwilwyr gyflwyno adroddiad ar:
   - gydberthnasau a all effeithio ar annibyniaeth yr archwilydd;
   - gwybodaeth am gynllunio archwiliad.
7. Mae Atodiad 2 yn tynnu sylw at elfennau allweddol o'r broses archwilio yn y Cyngor, ac mae'n cadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na staff archwilio eraill.

# Archwilio'r cyfrifon

8. Wrth gynllunio eu gwaith, mae'n rhaid i archwilwyr nodi risgiau sylweddol sy'n ymwneud â chywirdeb a dibynadwyedd y datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt. Mae Arddangosyn 1 yn cynnwys y risgiau a nodwyd a'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â hwy.

**Arddangosyn 1: Risgiau cyfrifon ariannol**

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | |
| Gallai methu â chyflawni'r gwariant a gyllidebwyd a sicrhau arbedion a gynlluniwyd effeithio'n andwyol ar y sefyllfa ariannol ac arwain at ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. | Adolygu prosesau cyllidebol ar gyfer nodi gorwariant ac effeithiolrwydd camau lliniarol. |
| Mae Archwilio Mewnol yn elfen allweddol o'r broses reoli ond efallai nad yw'n gwbl effeithiol. | Ystyried effeithiolrwydd Archwilio Mewnol drwy asesu'r is-adran yn erbyn safonau archwilio mewnol CIPFA. |
| Efallai nad oes gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn ar waith. | Asesu'r trefniadau lefel uchel ar gyfer rheolaeth a llywodraethu ariannol. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | |
| Gallai gweithredu'r gofrestr asedau sefydlog newydd arwain at drafodion ariannol wedi'u camddatgan. | Adolygu'r broses weithredu, trosglwyddo data ac allbwn o'r system. |
| Efallai nad yw rheolaethau TG systemau ariannol pwysig yn ddigon cadarn. | Cynhelir adolygiadau systemau TG o systemau Academy, dyledwyr a chredydwyr. |
| Ym mis Hydref 2009, nododd y Swyddfa Masnachu Teg fod prisio uchel bwriadol (cover pricing) yn digwydd yn helaeth mewn contractau adeiladu yn Lloegr. Efallai nad yw prosesau yn y Cyngor yn ddigon cadarn i liniaru'r risg hon. | Adolygu'r trefniadau a sefydlwyd gan y Cyngor i wobrwyo, rheoli, monitro ac archwilio contractau adeiladu a pheiriannu ac yn arbennig unrhyw gontractau â gorwariant. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon** | |
| Gallai paratoadau ar gyfer gweithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn llawn yn 2010-11 fod yn annigonol. | Adolygu cynnydd y Cyngor tuag at drosi i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, gan gynnwys ailddatgan mantolen derfynol 2008-09 a datganiadau ariannol 2009-10. |
| Gallai newidiadau i'r datganiadau ariannol i gydymffurfio â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2009 (SoRP) fod wedi'u cwblhau'n anghywir. | Adolygu cydymffurfiaeth â gofynion newydd SoRP. |
| Gallai ffurflen cyfuno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y Cyngor, y mae'r llywodraeth yn bwriadu ei chyhoeddi ar gyfer 2009-10, fod wedi'i chwblhau'n anghywir neu'n hwyr. | Sicrhau bod trefniadau ar waith i gwblhau Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan mewn modd amserol ac adolygu ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. |

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | |
| Risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Archwilio'r cyfrifon terfynol yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o'r datganiadau ariannol drafft. |

## Hawliau etholwyr

9. Mae Deddf 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, gofyn cwestiynau i'r Archwilydd Penodedig am y cyfrifon a herio eitemau yn y cyfrifon, lle y bo'n briodol.
10. Er gwaetha'r ffaith mai dim ond un gwrthwynebiad ffurfiol a gafwyd i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cawn nifer o ymholiadau a darnau o ohebiaeth gan y cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb. Mae ychydig o amser wedi'i gynnwys yn y ffi i ddelio â mân ymholiadau, fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli'r archwiliad.
11. Bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sydd angen ei gyflawni i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Codir unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd benodol neu gymysgedd sgiliau sy'n ofynnol i'r gwaith, ond caiff ei drafod â'r Cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith.

## Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni

12. Wrth gyflawni gwaith mewn perthynas â hawliadau am grantiau'r llywodraeth a ffurflenni eraill, o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae archwilwyr penodedig yn gweithredu fel asiantau'r Archwilydd Cyffredinol. O ran pob grant neu ffurflen, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adennill swm sy'n cwmpasu cost lawn y gwaith perthnasol a gyflawnir.
13. Codir ffi ar gyfer gwaith ardystio grantiau a ffurflenni yn ddyddiol yn unol â'r graddfeydd ffioedd sy'n ymwneud â sgiliau a nodir yn llythyr ffioedd llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a materion neilltuol y grantiau penodol.
14. Er bod gwaith grant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ar sail profiad blaenorol ac arwyddion cynnar o newidiadau mewn cynlluniau ac amodau grant, amcangyfrifwn y bydd cyfanswm ffi y gwaith grant yn amrywio rhwng £90,000 a £120,000.

# Gweithio gyda'r Cyngor

15. Mae'r gwaith a gynllunnir yn mynd i'r afael â risgiau a nodwyd ac yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen newid y Strategaeth os bydd unrhyw risgiau newydd sylweddol yn codi. Ni wneir unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
16. Caiff y Cynllun Cyfrifon Ariannol manylach hefyd ei drafod gyda swyddogion ac, os yw'n briodol, y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu.
17. Cynhelir hefyd drafodaethau gyda'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i wybod pa ran o'i waith sy'n berthnasol i'r archwiliadau a gwerthuso i ba raddau y gellir dibynnu ar ei waith.

## Ffi archwilio ariannol

18. Y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2009-10 yw £177,791 (TAW yn ychwanegol) ac fe'i codir mewn rhandaliadau o'r un swm rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Hydref 2010. Mae'r ffi yn unol â llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol.
19. Ar y cyfan, mae ffi archwiliad ariannol 2009-10 yn gynnydd o 1.75 y cant ar yr elfen gyfatebol o gyfrifodlebau'r Archwilydd Penodedig a gynhwyswyd fel rhan o'n ffi yn 2008-09. Mae'r ffi yn caniatáu am addasiad gyda ffi archwilio'r Gronfa Bensiwn o £4,618 (cynnydd i ffi'r Gronfa Bensiwn).

## Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

20. Gwnaeth llythyr ffioedd archwilio ac arolygu llywodraeth leol 2009-10 yr Archwilydd Cyffredinol (y llythyr ffioedd) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009 dynnu sylw at yr effaith a gafodd cyflwyno'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ar ffioedd archwilio. Ceir dwy brif elfen:
    - cydnabod cynlluniau Menter Cyllid Preifat/Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat ar sail egwyddorion IFRIC 12 yn 2009-10;
    - cyflwyno Cod Ymarfer yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol i broses Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn 2010-11.
21. Bydd unrhyw waith archwilio a gyflawnir wrth adolygu Mantolen agoriadol y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2009 ac ailddatgan ffigurau cymharol 2009-10 yn waith paratoi mewn perthynas â chyfrifon 2010-11. Er y gellir mynd i'r afael â'r gwaith hwnnw yn ystod y flwyddyn gyfredol, caiff y ffi ei chynnwys yn ffi archwilio 2010-11 (fel y nodir yn y llythyr ffioedd).

## Tîm yr archwiliad ariannol

**Arddangosyn 2: Tîm yr archwiliad ariannol**

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd Penodedig | 01244 525970 | anthony.barrett@wao.gov.uk |
| Ceri Stradling | Partner Ymgysylltu Archwiliad Ariannol | 01244 525970 | ceri.stradling@wao.gov.uk |
| Amanda Hughes | Rheolwr Archwilio | 01286 679974 | amanda.hughes@wao.gov.uk |
| Alan Hughes | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 01286 679158 | alan.hughes@wao.gov.uk |

## Cyflawni'r gwaith

22. Byddwn yn darparu adroddiadau, neu ddeunydd arall fel y cytunir arno, a nodir ein cerrig milltir allweddol isod.

**Arddangosyn 3: Cerrig milltir allweddol**

| Canlyniadau arfaethedig | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Strategaeth Archwilio | Chwefror 2010 | Mai 2010 |
| Asesiad Archwilio Mewnol | Mawrth 2010 | Mehefin 2010 |
| Adroddiad ar ddatganiadau ariannol – i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Mehefin 2010 | Medi 2010 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Medi 2010 | Tachwedd 2010 |

Atodiad 1

# Rolau a chyfrifoldebau

Ailsefydlwyd swydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O 1 Ebrill 2005, ymestynnodd Deddf 2004 swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i gynnwys penodi archwilwyr allanol ar gyfer cyrff llywodraeth leol.

## Archwilwyr penodedig

Mae'n rhaid i archwilwyr penodedig gynnal archwiliad sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arnynt o dan Ddeddf 1999 a Deddf 2004. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio (y Cod) sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i'r archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n ymgynghori ar God diwygiedig ar hyn o bryd.

O dan Reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd), mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio datganiadau cyfrifon blynyddol[1] wedi'u paratoi yn unol â'r arferion priodol a nodir yn y *Cod Ymarfer perthnasol ar drefniadau Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig – sef SoRP*.

Mae Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ategu'r rheoliadau hyn â chanllawiau i gynorthwyo cyrff llywodraeth leol i weithredu'r gyfundrefn gyfrifyddu. Ni fwriedir i'r canllawiau hynny fod yn rhan o'r fframwaith statudol ond maent yn sylwadaeth anffurfiol sy'n cynnwys syniadau yn ymwneud ag arfer da a chyngor ymarferol ac yn rhoi manylion ynghylch ble y gellir dod o hyd i godau cyhoeddedig a gydnabyddir yn gyffredinol sy'n nodi arferion priodol.

O dan Adran 13 o Ddeddf 2004, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru sicrhau yr archwilir eu cyfrifon gan un neu fwy o archwilwyr a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 14 o'r Ddeddf. Mae adrannau 17 a 23 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig archwilio ac ardystio'r cyfrifon, gan fodloni eu hunain:

- bod y cyfrifon:
  - yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor;
  - yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol;
  - wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol.
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i gasglu, cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth am safonau perfformiad fel sy'n ofynnol gan unrhyw gyfarwyddyd o dan Adran 47 o'r Ddeddf.

[1] Gwneir y rheoliadau hyn gan y Cynulliad o dan y pwerau statudol a geir yn Adran 39 o Ddeddf 2004.

## Hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o faterion archwilio – Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260

Mae Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260:

- yn rhoi canllawiau ar gyfleu 'materion perthnasol sy'n ymwneud ag archwilio' datganiadau ariannol rhwng archwilwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r corff a archwilir;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd gyflwyno adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (yn wahanol i reolwyr) ynglŷn â materion penodol cyn iddo roi barn ar y datganiadau ariannol.

Bydd yr Archwilydd Penodedig yn cyflawni'r cyfrifoldeb o fod yn atebol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu drwy gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ac, yn ôl yr angen, i'r Bwrdd/Cyngor yn amserol, cyn cwblhau archwiliad.

Atodiad 2

# Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio

| Elfennau allweddol | Gofynion | Sefyllfa yn y Cyngor |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau ymgysylltu** | | |
| Telerau'r gwaith archwilio | Mae Deddf 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol llywodraeth leol yng Nghymru. | Nodir rolau a chyfrifoldebau archwilwyr penodedig uchod ac yn Atodiad 1.<br>Gellir cael gafael ar y datganiad llawn o gyfrifoldebau yn:<br>http://www.wao.gov.uk/cymraeg/whatwedo/101.asp |
| Penodi archwilwyr a phartneriaid ymgysylltu | Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol yw penodi archwilwyr allanol llywodraeth leol a phennu cyfrifoldeb ar gyfer pob ymgysylltiad i bartner ymgysylltu. | O dan drefniadau Archwilydd Penodedig Unigol yr Archwilydd Cyffredinol, Anthony Barrett yw'r Archwilydd Penodedig, a gaiff ei gefnogi gan Ceri Stradling fel Partner Ymgysylltu. |
| Gwaith 'anstatudol' | Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo unrhyw waith 'anstatudol' a wneir ar gais cyrff a archwilir ac a adolygir. | Ni ofynnwyd am unrhyw waith 'anstatudol' ac nid oes unrhyw beth yn yr arfaeth. |
| **Ystyriaethau moesegol** | | |
| Annibyniaeth | Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ystyried y canlynol:<br>• bygythiadau i annibyniaeth yr archwilydd (gan gynnwys ymgyfreitha);<br>• teulu a chydberthnasau personol eraill;<br>• cysylltiad hir â'r corff a archwilir, yn seiliedig ar bolisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau;<br>• materion dadleuol neu anodd. | Gallwn gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na staff archwilio eraill ac rydym wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Perfformiad ymgysylltu | Mae angen i bartneriaid ymgysylltu ystyried pa lefel o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol. | Mae systemau adolygu sicrhau ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer pob archwiliad, ac mae'r Partner Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol sy'n seiliedig ar brofiad y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith archwilio. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk